

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 6ed o CHWFROR 2017 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00.**

**Presennol:** Alan Lewis (yn y gadair), Ian Evans, Heddwyn Jones, Margaret Rees, Tyssul Evans, Linda Williams, Geraint Rosser, Geoff Hewitt, Richard Thomas, Meic Bowen, Aled Williams a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

**Ymddiheuriadau:** Carrie Rees, Wendy Evans ac Ellis Jenkins

**Materion Personol**

**1629** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd ac yn arbennig y Cynghorwyr Richard Thomas a Meic Bowen a oedd yn bresennol ar ôl cyfnod o tostrwydd. Cofiw'n am y Cynghorwr Ellis Jenkins sydd yn parhau i ddioddef ar hyn o bryd.

**1629** Croesawyd Mr Jeff Jones i'r cyfarfod a rhodiwyd cyfle iddo fynegi ei bryder ar y ffaith bod ei dir yn dioddef o 'Japanese Knotweed'. Penderfynwyd ei fod yn cysylltu â Chlwb Rygbi Pontiets yn uniongyrchol ynglŷn â'r mater hwn.

**1630 Cofnodion**  
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 09/01/2017 fel rhai cywir.

**1631 Materion yn codi.**

Tud 1. Cofnod Rhif 1606 - Toiledau'r Meinciau - Gan nad yw Mr Huw Nichols yn teimlo y gall gwneud y gwaith o fod yn ofalydd penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach ynglŷn â'r mater.

**Gohebiaeth**

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

**1632** Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Coeden Nadolig – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

**1633** Tenovus Gofal Canser - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

**1634** Clwb Cyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £400.

**1635** Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

**1636** Teenage Cancer Trust – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

*Cynghorwr Meic Bowen yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**1637** Meinciau Sports & Recreation Club – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

*Meic yn ail ymuno a'r cyfraniad*

*Cynghorwr Geraint Rosser yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**1638** Clwb Rygbi Pontiets – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £850.

*Geraint yn ail ymuno a'r cyfraniad*

**1639** Neuadd yr Eglwys, Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

**1640** Côr Merched Glannau'r Gwendraeth - Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

- 1641** Comisiwn Ffiniau/ Jonathan Edward A.S./Adam Price A.C.- Newidiadau i Ffiniau Etholaeth Caerfyrddin- Nodwyd y llythron.
- 1642** Menter Cwm Gwendraeth Elli – Gweithredu Ynni Lleol – Nodwyd y llythyr.
- 1643** Un Llais Cymru - Aelodaeth 2017/18 - Awdurdodwyd y Clerc i dalu £445.00 i adnewyddu ein haelodaeth.
- 1644** Cyngor Sir Gar – Ymgynghoriad Cyhoeddus, Blychau Ffon yn y Gymuned – Nodwyd ein bod yn cadarnhau ein dymuniad i gadw blychau ffon yn Maesywern Carwe, Heol y Meinciau, Pontiets ac ar y Meinciau.

### **Ceisiadau Cynllunio**

#### **1645** Ceisiadau Cynllunio

- a) Cais Rhif W/34962- Cymdeithas Tai Bro Myrddin - 6 Ger Tŷ Mawr, Carwe - 2 Uned Nawsaeru- Dim Gwrthwynebiad .

### **Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis**

- 1646** Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Ionawr 2017. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

### **Adroddiad Ariannol Misol**

- 1647** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
- a) Cyflog y Clerc - £388.61 (Mis Ionawr)
  - b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Ionawr)
  - c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £100.00 (Mis Ionawr)
  - ch) HMRC (Treth)- £77.60 (Mis Ionawr)
  - d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Ionawr)
  - dd) BT – Ffon y Swyddfa - £45.48 (Mis Ionawr)
  - e) Wicksteed – Gwaith ym Marc Carwe - £20585.00
  - f) Glanhawyr Cysgodfannau Bysiau'r Gymuned (5) - £200.00 yr un.

### **Polisiau'r Cyngor**

- 1648** Derbyniwyd y Polisiau canlynol gan y Cyngor :-
- a) Polisi & Gweithdrefn Achwyniadau
  - b) Polisi Iechyd a Diogelwch
  - c) Polisi Cyfleodd Cyfartal
  - ch) Polisi Rheoli Absenoldeb Salwch
  - d) Rheolau Sefydlog

Penderfynwyd cynnal Is-bwyllgor Iaith am 6.00 o'r gloch ar 06/03/17 yn Swyddfa'r Cyngor i edrych dros Bolisi Iaith y Cyngor.

### **Materion Cynghorwyr**

- 1649** **Ian** a) Gofyn am arwyddion Baw Cwn yn Maesywern, Ger Tŷ Mawr a'r Brif Hewl yng Ngharwe.  
b) Gofyn am arwyddion 20 milltir yr awr o Rodfa'r Ceffyl trwy Ystâd Ffoslas.

**1650 Margaret** Twll yn yr Hewl ar Sgwâr Crwbin

**1651 Linda** Diolch i Meic a Tyssul am eu gwaith ar y ffordd rhwng Heol Mansant a heol Bancyroffis.

**1652 Richard** Gofyn i'r Heddlu cadw golwg ar gyflymdra'r traffig trwy Bontantwn.

**1653 Tyssul** Car ar yr hewl fawr wrth 1 Brynderi.

**Cyfarfod nesaf:- 6ed o Fawrth 2017 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.**

**(Is-bwyllgor Iaith am 6.00 o'r gloch)**

**(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)**

**Llofnodwyd..... CADEIRYDD**

**Dyddiad.....**